
Prosiect menter ar y cyd sy'n cael ei ddatblygu gan RWE

Fferm Wynt Alltraeth

AWEL Y MÔR

Offshore Wind Farm



# cylchlythyr

## Gwanwyn 2025

Wrth i'r gwaith barhau ar brosiect ynni adnewyddadwy mwyaf Cymru, roeddem eisiau trafod y gwaith rydym wedi bod yn ei wneud i gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau ac addysg yn y rhanbarth.Mae darparu a gweithredu prosiect sy'n gallu cynhyrchu pŵer i fwy na hanner y cartrefi yng Nghymru yn gofyn am weithlu medrus.

Yn y cylchlythyr hwn, rydym yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am rai o'n gweithgareddau a'n gwaith ymgysylltu ynglŷn â sgiliau, yn ogystal ag amserlen gyfredol ein prosiect a gwaith arall ar draws y gadwyn gyflenwi.

## Cynllunio gyda rhagolygon swyddi ar gyfer gwaith adeiladu a gweithrediadau

Mae tîm RWE sy'n datblygu Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr wedi ymchwilio ac wedi cynhyrchu rhagolwg manwl o'r potensial i greu swyddi yn y dyfodol yn y prosiect ynni adnewyddadwy mwyaf yng Nghymru sydd yn cael cydsyniad ar hyn o bryd.

Mae'r rhagolwg yn rhagweld beth fyddai'r gofynion swyddi blynyddol posibl ar gyfer pob cam adeiladu unigol, ac mae'n cael ei ategu gan ddata gan fwy na dwsin o brosiectau ffermydd gwynt alltraeth llwyddiannus a gyflawnir gan RWE, sy'n datblygu Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr ar ran partneriaid y prosiect, sef Stadtwerke München a Siemens Financial Services.

gyflenwi yn ystod y gwaith adeiladu, gyda chyfran sylweddol o bosibl wedi'i lleoli yng ngogledd Cymru a'r DU. Gellid creu 50 o swyddi eraill yn uniongyrchol gydag RWE ar y safle ei hun. Ymysg y rhain, mae'r prosiect yn rhagweld y byddai angen hyd at 200 o dechnegwyr gosod yn ystod cyfnod prysuraf y gwaith adeiladu.

Dywedodd **Rebecca Evans, Ysgrifennydd Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**: "Mae Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr yn garreg filltir bwysig yn ein taith tuag at Gymru wyrddach a mwy cynaliadwy – gan ein rhoi ar flaen y gad o ran y chwyldro diwydiannol gwyrdd.

"Mae'r prosiect hwn yn ein helpu i gyrraedd ein targedau hinsawdd uchelgeisiol, yn ogystal â sicrhau manteision economaidd drwy ddarparu swyddi medrus o ansawdd uchel yng ngogledd Cymru. Byddwn yn parhau i weithio gydag RWE i sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o'r manteision i'n cymunedau lleol."

Dywedodd **Jo Pickard, Uwch Reolwr Cydsyniadau RWE**: "Mae darparu seilwaith o'r maint hwn yn gofyn am flynyddoedd o waith cynllunio, ac mae sicrhau bod pobl sydd â'r sgiliau angenrheidiol ar gael yn rhan hanfodol o'r broses.

"Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Gyrfa Cymru ac Uchelgais Gogledd Cymru, yn ogystal â'r corff sector rhanbarthol trawsffiniol, y Gynghrair Ynni ar y Môr. O ganlyniad, bydd y prosiect yn darparu ynni glân i gannoedd o filoedd o gartrefi, yn ogystal â gyrfaoedd cynaliadwy yng ngogledd Cymru."



Gwynt y Môr

## Awel y Môr i noddi dosbarthiadau adolygu TGAU Gwyddoniaeth am yr ail flwyddyn yn olynol

Am yr ail flwyddyn yn olynol, bydd prosiect Awel y Môr yn noddi dosbarthiadau adolygu Gwyddoniaeth TGAU ledled gogledd Cymru.

Roedd dros 1,000 o fyfyrwyr wedi gallu elwa o'r dosbarthiadau'r llynedd, diolch i bartneriaeth rhwng Awel y Môr a Sbarduno, sef cyflenwr addysgol arloesol lleol o ogledd Cymru, a'i sefydliad nid-er-elw: Cwmni Buddiannau Cymunedol, Sbarduno.

Bydd y gwersi adolygu yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb yng Ngholeg Llandrillo, ac ar-lein yn ystod gwyliau'r ysgol ym mis Ebrill a mis Mai. Byddant yn ymdrin â'r meysydd pwnc bioleg, cemeg a ffiseg, ac yn cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Bydd y sesiynau hyn yn helpu myfyrwyr i wella technegau arholiad ac ailedrych ar rai o'r pynciau heriol gydag athrawon lleol profiadol. O ystyried pwysau'r maes llafur, bydd pob sesiwn yn cael ei hintegreiddio'n ofalus i ddarparu cymorth ychwanegol i ysgolion.

Gallwch gofrestru ar gyfer y dosbarthiadau yma: **www.eventbrite.co.uk/o/sbarduno-inspire-by-sbarduno-40696564683**



## Ymgyfarwyddo â'r diwydiant ynni adnewyddadwy drwy brofiad gwaith rhithiol

Ochr yn ochr â'i bartner Springpod, mae RWE wedi creu profiad dysgu rhithiol dwyieithog newydd i roi cipolwg i bobl ifanc ar sut beth fyddai gyrfa yn y sector gwynt ar y môr.

Mae'r pecyn dysgu wedi'i dargedu at bobl ifanc 13-18 oed ac mae'n cynnwys fideos a chyfweliadau gydag aelodau o dîm RWE. Mae'n galluogi myfyrwyr i archwilio byd arloesol ynni gwynt ar y môr – o greu ffermydd gwynt ar y môr i ffactorau amgylcheddol a phrosiectau peirianneg arloesol.

Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth werthfawr iddynt am y gyrfaoedd a'r llwybrau amrywiol i RWE a'r sector ehangach.

Un o'r manteision allweddol o sicrhau bod y dysgu hwn ar gael ar-lein yw ei fod yn gyfleus ac yn hygyrch ym mha le bynnag y mae pobl.

Mae profiad gwaith corfforol ym maes gwynt ar y môr yn anodd weithiau – felly mae darparu'r wybodaeth a'r cyfleoedd ar lwyfan rhithiol yn golygu ein bod yn gallu ymgysylltu â chynulleidfa ehangach o bobl ifanc.

I gael rhagor o wybodaeth, cliciwch yma. **www.springpod.com/virtual-work-experience/offshore-wind-at-rwe-virtual-work-experience/WEXP-00443**

## Arbenigwr sgiliau yng Ngwynedd yn gweithio ar strategaeth Awel y Môr

Mae tîm Awel y Môr yn gweithio gydag ymgynghorydd sgiliau yng Ngwynedd wrth iddo ddatblygu ei strategaeth ar gyfer sgiliau a chyflogaeth.

Mae James Goodman yn gweithio fel ymgynghorydd ers 2021, yn dilyn 17 mlynedd mewn addysg uwch lle bu'n gweithio ym maes rheoli cyllid, ymchwil ac ymgysylltu â'r gymuned, yn ogystal â chydlynu prosiectau mawr ar draws amrywiaeth eang o sectorau; gan gynnwys gwyddorau'r môr, gwyddorau digidol, peirianneg niwclear, busnes a'r celfyddydau.

Mae wedi datblygu portffolio llwyddiannus o waith yn cefnogi prifysgolion y rhanbarth, gan gynnwys Prifysgol Wrecsam, gan helpu i sicrhau £11.5m tuag at eu canolfan peirianneg a chyfansoddion newydd. Mae hefyd wedi darparu gwasanaethau ymchwil desg i Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer eu cynllun sgiliau a chyflogadwyedd 2023-2025.

Dywedodd James: "Fel Ymgynghoriaeth James Goodman Consulting, rwy'n falch iawn o gefnogi RWE ac Awel y Môr i ddatblygu eu Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth derfynol, ac i weithio i greu a gwella cyfleoedd cyflogaeth a sgiliau presennol ar gyfer y rhanbarth."

## Cwblhau'r gwaith i ddiogelu madfallod dŵr cribog

Mae'r ffensys cyntaf wedi cael eu gosod ar safle arfaethedig yr is-orsaf ar y tir. Mae'r ffensys yn galluogi tîm y prosiect i gyflawni un o'i brif ddyletswyddau o ddiogelu rhywogaethau gwarchodedig yn ystod y gwaith datblygu, sef yn yr achos hwn, madfallod dŵr cribog; fel sy'n ofynnol o dan Orchymyn Cydsyniad Datblygu'r prosiect a chyfreithiau amgylcheddol y DU.

Cafodd trapiau o'r enw pydewau maglu (pitfall traps) eu gosod mewn gwrychoedd ar ymyl y caeau, ac roedd unrhyw fadfallod dŵr a gafodd eu dal yn cael eu symud i gynefin newydd wrth ymyl gwarchodfa madfallod dŵr gyfagos, cyn iddynt ddechrau gaeafgysgu.

Cafodd y gwaith, a oedd yn gofyn am drwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ei wneud gan SLR a chwmni o'r Wyddgrug, sef Enfys Ecology.



Madeleine Warburton - Prentis RWE

## Cyfnod recriwtio yn dod i ben ar gyfer prentisiaethau

Mae'r cyfnod recriwtio wedi dod i ben ar gyfer rhaglen brentisiaeth RWE.

Yn 2025, mae'r cwmni wedi creu 32 o gyfleoedd newydd er mwyn i unigolion ennill cyflog, dysgu a chyfrannu at y broses o drawsnewid ynni'r DU.

Dywedodd Madeleine Warburton, Prentis Tyrbinau Gwynt sy'n astudio yng ngogledd Cymru gyda Grŵp Llandrillo Menai: "Ers ymuno â'r brentisiaeth, rydw i wedi cael cefnogaeth wych gan fy arweinwyr a grŵp tywys sydd wedi fy helpu i feithrin a dysgu sgiliau gwahanol.

"Mae'r ffaith eich bod chi'n byw ac yn gweithio ochr yn ochr â'ch cyfoedion hefyd yn golygu bod rhywun yno'n gefn i chi bob amser.

"Un o uchafbwyntiau fy mhrentisiaeth oedd cael fy enwebu ar gyfer un o'r gwobrau yng Ngwobrau Gweithwyr Ynni Proffesiynol Ifanc, bod y person ieuengaf yn y seremoni, a gweld llawer o fodelau rôl benywaidd dylanwadol iawn ar y llwyfan. Roeddwn i'n teimlo fy mod i'n perthyn."

Mae'r cyfnod recriwtio ar gyfer prentisiaethau Technegwyr Tyrbinau Gwynt ar y Môr yn agor bob mis Ionawr.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan RWE **uk.rwe.com/career/apprenticeships/offshore-wind-turbine-technician-apprenticeships/**

## Dechrau gwych i fyfyriwr blwyddyn ryngosod gydag Awel y Môr

Mae Alice Collins yn fyfyriwr sy'n astudio Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Caerwysg, ac mae hi'n treulio blwyddyn mewn diwydiant gydag Awel y Môr. Drwy hyn, mae Alice yn cael cyfle i ennill profiad a defnyddio ei sgiliau mewn prosiectau yn y byd go iawn.

Dywedodd: "Fel Intern Cydsyniadau, rydw i wedi cael profiadau ymarferol amhrisiadwy yn y diwydiant gwynt ar y môr.

"Mae wedi bod yn gyffrous defnyddio'r sgiliau rwyf wedi'u caffael yn y brifysgol mewn prosiect go iawn. Mae hefyd wedi dangos i mi nad oes rhaid i chi fod yn beiriannydd neu'n dechnegydd i weithio ym maes ynni gwynt ar y môr, gan fod cyfleoedd ar gael i bobl ag ystod eang o sgiliau.

"Er bod yr interniaeth yn swydd '9 tan 5', rwyf wedi bod yn ddigon ffodus i allu teithio fel rhan o fy ngwaith. Roedd hyn yn cynnwys teithio i'r Almaen ar gyfer yr wythnos gynefino, a cherdded a chymryd rhan mewn arforgampau ar Ynys Môn, fel rhan o'r gwaith adeiladu tîm. Mae'r profiad hwn wedi bod yn llawn cyffro.

"Byddwn yn argymell yr interniaeth hon i unrhyw un sydd â diddordeb mewn ynni gwynt ar y môr, yn enwedig i'r rhai sy'n astudio graddau sy'n gysylltiedig â Daearyddiaeth neu'r Amgylchedd. Rydych chi'n cael eich trin fel gweithiwr amser llawn o'r diwrnod cyntaf, sy'n eich galluogi i gael blas go iawn ar sut beth yw gweithio yn y sector hwn.

"Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at yr hyn sydd i ddod dros y misoedd sy'n weddill, wrth i mi barhau i ddysgu yn y swydd."




Alice Collins, intern cydsyniadau sy'n gweithio ar brosiect Awel y Môr



Tîm RWE yn cyflwyno siec i Dîm Achub Mynydd Llanberis

## Gorsaf bŵer hynaf y DU yn cefnogi Tîm Achub Mynydd Llanberis

RWE yw cynhyrchydd ynni adnewyddadwy mwyaf Cymru, gyda phortffolio eang o safleoedd presennol yn ogystal â safleoedd eraill ym maes ynni gwynt a solar ar y tir.

Mae'r cwmni'n gweithredu gorsaf bŵer hynaf y DU, sef Gorsaf Hydro Cwm Dyli yn Eryri, sydd wedi bod yn tynnu dŵr o Lyn Llydaw i gynhyrchu trydan adnewyddadwy ers 1906.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, bu RWE yn gweithio mewn partneriaeth â Jennings Building a Civil Engineering Ltd i wneud gwaith atgyweirio cymhleth ar y biblinell 2km sy'n cludo'r dŵr i'r orsaf.

Bu heriau sylweddol yn wynebu'r prosiect, gan gynnwys tir garw a'r anhawster logistaidd o gludo deunyddiau, a oedd yn gorfod cael eu danfon gan hofrennydd.

Er mwyn sicrhau diogelwch, bu Jennings yn cydweithio â Thîm Achub Mynydd Llanberis i ddatblygu cynllun argyfwng cynhwysfawr.

Gan gydnabod gwaith hanfodol Tîm Achub Mynydd Llanberis — fel rhan o'r prosiect hwn ac yn eu hymdrechion i achub bywydau o ddydd i ddydd — rhoddodd RWE a Jennings rodd o £10,000 i'r elusen.

## Cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi

Os ydych chi'n rhan o gwmni sy'n gweithio ym maes ynni gwynt ar y môr, neu os hoffech chi gael gwybod sut gallwch fod yn ymwybodol o'r holl gyfleoedd yng nghadwyn gyflenwi Awel y Môr, dylech chi ystyried cofrestru ar gyfer Rhaglen Ymgysylltu Tryloywder Cyflenwyr RWE.

Mae'r rhai sydd wedi cofrestru yn rhan o gronfa ddata sydd â swyddogaeth chwilio agored gyda chyflenwyr eraill, ac maent yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau a chyfleoedd rheolaidd i gwrdd â rheolwyr ein cadwyn gyflenwi.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: **awelymor.cymru/suppliers**

## I ddod

Bydd tîm prosiect Awel y Môr yn mynd i gynhadledd Ynni Morol Cymru, digwyddiad sy'n dod ag arweinwyr y diwydiant, llunwyr polisïau, ymchwilwyr a busnesau'r gadwyn gyflenwi at ei gilydd i archwilio'r datblygiadau diweddaraf ym maes ynni'r llanw, y tonnau a gwynt ar y môr.

Cynhelir y digwyddiad yng Nghaerdydd ar **7-8 Mai**.

## Amserlen bresennol

DYMA LLE YDYM ARNI

### Medi 2023
Gorchymyn Cydsyniad Datblygu yn cael ei gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net

### Tachwedd 2023
Trwyddedau morol yn cael eu dyfarnu gan Cyfoeth Naturiol Cymru

### Gwanwyn a haf 2024
Ymchwiliadau tir ar y tir ac ar y môr yn cael eu cynnal, ymchwiliadau archeolegol a gwaith ar gyfer madfallod dŵr cribog

### 2025
Gwaith ymgysylltu a dylunio parhaus

### 2026-27
Cynnal rhagor o ymchwiliadau i safleoedd ar y môr a mesurau lliniaru ecolegol ar y tir

### 2027
Dyddiad cynharaf cyfredol ar gyfer dechrau adeiladu ar y tir

### 2029
Dyddiad cynharaf cyfredol ar gyfer dechrau adeiladu ar y môr

### 2030
Y dyddiad cynharaf ar gyfer cynhyrchu

Mae pob dyddiad yn ddangosol ac mae'n bosibl y byddant yn newid